

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 10 MEHEFIN 2020

YN BRESENNOL: Cynghorydd K. Madge (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
C.A. Campbell	J.M. Charles	D.M. Cundy	S.A. Curry
C.A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	G. Davies
H.L. Davies	I.W. Davies	J.A. Davies	K.Davies
S.L. Davies	E. Dole	J.S. Edmunds	P.M. Edwards
D.C. Evans	H.A.L. Evans	L.D. Evans	R.E. Evans
W.T. Evans	A.L. Fox	S.J.G. Gilasbey	C.J. Harris
P. Hughes-Griffiths	A.D. Harries	J.K. Howell	P.M. Hughes
A. James	R. James	D.M. Jenkins	J.P. Jenkins
G.H. John	C. Jones	B.W. Jones	D. Jones
G.R. Jones	H.I. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis
K. Lloyd	K. Madge	S. Matthews	A.S.J. McPherson
E. Morgan	A.G. Morgan	D. Nicholas	B.D.J. Phillips
D. Price	J.G. Prosser	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone
H.B. Shepardson	A.D.T. Speake	L.M. Stephens	B. Thomas
D. Thomas	E.G. Thomas	G. Thomas	J. Tremlett
A.Vaughan Owen	D.T. Williams	D.E. Williams	J.E. Williams

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

W. Walters, Prif Weithredwr

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant

R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith

P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)

G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - - 10.00 yb - 12.40 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr T. Higgins, J. James, T.J. Jones, S. Najmi, S. Phillips a G.B. Thomas.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL

- Talodd y Cadeirydd deyrnged i Mr David Tom Davies OBE, MM yn dilyn ei farwolaeth. Bu Mr Davies yn Gadeirydd yr hen Gyngor Sir Dyfed o 1981-82 ac ef oedd y Cadeirydd pan sefydlwyd y Cyngor Sir Caerfyrddin presennol o 1995-97 a bu'n gweithio'n ddifflino dros y sir a'r gymuned leol yn Nryslwyn a'r cyffiniau. Roedd yn un o'r sylfaenwyr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a chwaraeodd ran fawr wrth sefydlu Gerddi Aberglasne ac yn haeddiannol iawn felly, yn 2018 ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 100 oed, derbyniodd Ryddid Anrhydeddus Sir Gaerfyrddin.

Bu Mr Davies hefyd yn gwasanaethu yn ystod yr Ail Ryfel Byd fel aelod o'r Magnelwyr Brenhinol a threuliodd dair blynedd fel carcharor rhyfel. Yn 2016, cyhoeddodd ei stori mewn llyfr.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cyfnod anodd sy'n wynebu llawer ar hyn o bryd oherwydd pandemig Covid-19 gan gofio am y teuluoedd hynny yr effeithiwyd arnynt gan y feirws;
- Mynegodd y Cadeirydd ei werthfawrogiad i holl staff y Cyngor a'r holl wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau iechyd eraill am eu gwaith caled yn ystod y pandemig yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu cynifer o wasanaethau â phosibl a helpu pobl agored i niwed yn y gymuned. Mynegodd ddiolch arbennig i'r gwirfoddolwyr di-ri a oedd wedi helpu yn ystod yr argyfwng dros y tri mis blaenorol.
- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r trigolion canlynol o fewn y Sir a oedd wedi dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed yn ddiweddar:-

Ethel Wheeler - Capel Hendre

Joan Davies - Betws

Douglas Davies - Llanelli

Bu Cadeirydd y llynedd yn edrych yn ôl ar ei flwyddyn yn y swydd a fu ychydig yn wahanol dros y tri mis diwethaf oherwydd y coronafeirws. Mynegodd ei werthfawrogiad i'r llu o bobl a oedd wedi gwirfoddoli i helpu'r rhai sy'n agored i niwed yn y gymuned yn ystod y pandemig. Cyfeiriodd hefyd at y nifer fawr o bobl yr oedd wedi eu cyfarfod yn ystod ei flwyddyn yn y swydd ac at y gwaith yr oeddent yn ei wneud ar ran eu cymunedau a chyhoeddodd bod gwobr newydd sef 'Y Gwobrau Diolch Dinesig' wedi cael ei sefydlu i gydnabod eu gwaith. Byddai enwau enillwyr y gwobrau yn 2019-20 yn cael eu cyhoeddi'r bore hwnnw, gyda'r derbynwyr yn derbyn eu gwobrau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Mynegodd hefyd ei werthfawrogiad i'r rhai a gyfrannodd at ei elusen gan godi £3,925 ar gyfer y banciau bwyd yn Rhydaman, Caerfyrddin a Llanelli.

Diolchodd i'w Is-gadeirydd, y Cyngorydd Ieuan Davies a Chydymaith y Cyngorydd Davies sef, Mrs Sue Allen, am eu cymorth a'u cwmni yn ystod ei gyfnod yn y swydd a dymunodd yn dda i'r Cyngorydd Davies yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Diolchodd hefyd i'w Gaplan y Parchedig Caroline Jones am ei chefnogaeth ysbrydol a'i harweiniad drwy gydol y flwyddyn.

Mynegodd ei ddiolch i'r Prif Weithredwr am ei chyngor a'i harweiniad proffesiynol, ac i'r Cyfarwyddwyr a staff yr Awdurdod a oedd wedi cefnogi gwaith y Cadeirydd, gan gynnwys yr Uned Gwasanaethau Democraidd, ei yrrwr Jeff Jones ac yn benodol Eira Evans am ei chefnogaeth broffesiynol a phersonol, am drefnu ei ddigwyddiadau, ac am sicrhau bod popeth yn mynd yn hwylus bob amser.

Cyfeiriodd hefyd at y nifer fawr o bobl a oedd wedi mynychu ei ddigwyddiadau a'r rhai a fynychodd ei hun am eu cefnogaeth ac i aelodau'r Cyngor am eu cefnogaeth.

Yn olaf, talodd deyrnged i'w gydymaith, Mrs. Catrin Madge, a oedd wedi bod wrth ei ochr dros y 12 mis diwethaf a diolchodd yn ffurfiol iddi am ei chefnogaeth. Credai ei fod wedi bod yn anrhydedd ac yn fraint gwasanaethu fel Cadeirydd y Cyngor a diolch i bawb am roi'r cyfle iddo.

4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR2020-21.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd K. Madge ac eiliwyd gan y Cynghorydd L.M. Stephens a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd I.W. Davies yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2020/21.

Mynegodd y Cynghorydd K. Madge ei longyfarchiadau i'r Cynghorydd Davies ar gael ei ethol gan ddweud, oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol, ni allai gyflwyno'r Gadwyn Swyddogol i'r Cynghorydd Davies yn bersonol, ond trefnwyd bod y gadwyn yn cael ei hanfon i'w gartref.

Gwnaeth y Cynghorydd Ieuan Davies ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac arwisgodd y Gadwyn Swyddogol.

Mynegodd y Cynghorydd Davies ei ddiolch i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth wrth ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac roedd yn edrych ymlaen at ei flwyddyn yn y swydd yn cynrychioli'r Cyngor ac yn cyfarfod â phobl pan fyddai'r cyfyngiadau symud presennol yn cael eu llacio. Talodd y Cynghorydd Davies deyrnged hefyd i Gadeirydd y llynedd sef, y Cynghorydd K. Madge

Rhodddwyd teyrngedau hefyd i Gadeirydd y llynedd gan Arweinyddion Grŵp Plaid Cymru, y Blaid Annibynnol, Grŵp Llafur, a'r Grŵp Annibynnol Newydd am y gwasanaeth rhagorol yr oedd wedi'i roi i'r Cyngor yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu holl eiriau caredig gan ddweud, oherwydd y rheolau cadw pellter cymdeithasol, ni fyddai'r Gadwyn Swyddogol yn cael ei chyflwyno i'w Gydymaith (Mrs Sue Allen) y diwrnod hwnnw. Y gobaith oedd trefnu digwyddiad seremonïol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i Gadeirydd y llynedd, a'i Gydymaith (Cynghorydd Kevin Madge a Mrs Catrin Madge) a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o gefnogol i waith y Cyngor. Mynegodd ei llongyfarchiadau i'r Cadeirydd a'i Gydymaith a oedd newydd gael eu hethol (y Cynghorydd Ieuan Davies a Mrs Sue Allen) ar eu penodiad. Cyfeiriodd hefyd at natur y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni fel un o nifer o brofiadau newydd, a dywedodd er bod y rhai a fyddai fel rheol yn y Siambur heddiw i ddymuno'n dda i'r Cadeirydd yn methu â gwneud hynny, roeddent wedi mynd ati i roi eu dymuniadau gorau at ei gilydd ar fideo.

Bu'r Cyngor yn gwyllo'r fideo.

Dymunodd y Prif Weithredwr flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn i'r Cadeirydd yn ei swydd.

5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2020-21

Cynigiwyd gan y Cynghorydd W.T.Evans ac eiliwyd gan y Cynghorydd G. Thomas a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Eirwyn Williams yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2020/21.

Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i'r Is-gadeirydd ar ei benodiad a dywedodd oherwydd y rheolau cadw pellter cymdeithasol cyfredol, bod trefniadau wedi'u gwneud i ddosbarthu'r Gadwyn Swyddogol i gartref y Cynghorydd Williams.

Mynegodd yr Is-gadeirydd ei werthfawrogiad i'r Cyngor ar ei benodiad a gwnaeth ei ddatganiad yn derbyn swydd.

Dywedodd y Cadeirydd oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol, ni fyddai'r Gadwyn Swyddogol yn cael ei chyflwyno i Gydymaith yr Is-gadeirydd (Mrs Joyce Williams) heddiw. Y gobaith oedd gwneud hynny'n ddiweddarach yn y flwyddyn.

6. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2019-20

Cyflwynodd yr Arweinydd ei bumed Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor yn cwmpasu'r cyfnod 2019/20 ac edrychodd yn ôl ar gyflawniadau'r Cyngor dros y 12 mis blaenorol (yr oedd copïau ohonynt wedi eu rhoi i'r Cynghorwyr cyn y cyfarfod). Dywedodd er nad oedd yn bwriadu mynd drwy'r adroddiad yn fanwl, y byddai'n hoffi tynnu sylw at gyflawniadau canlynol y Cyngor dros y flwyddyn (gan gynnwys cyflwyniad fideo) cyn rhoi sylwadau ar effaith pandemig Covid 19 ar y Sir a graddfa ac ymateb y Cyngor i hynny.

Bu'r Cyngor yn gwyllo'r fideo.

Atgoffodd yr Arweinydd y Cyngor mai dim ond blwyddyn yn ôl y cynhaliwyd cymal olaf Taith Merched OVO pan ddaeth miloedd o bobl i sefyll ar strydoedd y sir i annog y beicwyr yn eu blaenau ar eu ras 79 milltir drwy Sir Gaerfyrddin. Roedd cynnal y ras wedi rhoi cyfle i arddangos golygfeydd hardd y sir a'r croeso cynnes sy'n aros i'r rheiny sy'n ymweld â'r sir. Roedd y Cyngor hefyd wedi neilltuo £20,000 ar gyfer ei Gynllun Cymorth Digwyddiadau er mwyn i sefydliadau a grwpiau cymunedol gynnal eu digwyddiadau eu hunain. Roedd y rheiny'n cynnwys wythnos Gŵyl Dewi Sant Caerfyrddin, Gŵyl Ddefaid Llanymddyfri, Pride Llanelli a Gŵyl Canol Dre.

Roedd yn ystyried mai un o'r cyflawniadau y gallai'r Cyngor ymfalchïo fwyaf ynddo yn ystod y flwyddyn oedd yr Adroddiad "Symud Sir Gaerfyrddin Ymlaen". Roedd dros 60% o boblogaeth y Sir yn byw yn ei hardaloedd gwledig ac roedd gan y Cyngor bortffolio penodol i gynrychioli anghenion y bobl hynny. Roedd Menter y Deg Tref Wledig yn amlinellu'r weledigaeth strategol hirdymor ar gyfer adfywio

cymunedau gwledig y sir drwy sicrhau cynaliadwyedd economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol i'r trefi hynny h.y. Llanymddyfri, Sanclêr, Hendy-gwyn ar Daf, Castellnewydd Emlyn, Talacharn, Cwmaman, Llanybydder, Cydweli, Llandeilo a Cross Hands. Fodd bynnag, yn wyneb Covid-19 sylweddolwyd yn fwy nag erioed fod yr angen i edrych yn lleol, ac wrth gefnogi a datblygu'r economi honno, byddai'r sir yn dod hyd yn oed yn fwy cydnerth a chadarn.

Byddai Cynlluniau'r Cyngor i gynyddu ei stoc dai ar draws y Sir hefyd yn cefnogi'r strategaeth wledig. Dros y pum mlynedd nesaf roedd y Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi £150 miliwn i adeiladu 900 o dai cyngor newydd ar draws y sir, gyda llawer o'r rheiny mewn ardaloedd gwledig lle mae prinder tai wedi bod ers blynyddoedd lawer. Roedd gwaith hefyd ar y gweill ym Mhen-bre a'r Bryn, Llanelli i adeiladu 300 o gartrefi cyn 2022 ac er bod y gwaith wedi'i atal ar ddechrau'r cyfyngiadau symud roedd y safleoedd hyn yn dechrau ailagor ac roedd y gwaith wedi aildechrau.

Roedd yr Awdurdod wedi adnewyddu ei ymrwymiad i newid yn yr hinsawdd, gan ddod yr awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd, sy'n amlinellu sut y byddai'n carbon sero-net erbyn 2030. Roedd y cynllun yn uchelgeisiol ac roedd y Cyngor wedi ymrwymo i'w lwyddiant. Roedd fflyd sy'n fwy ynni-effeithlon yn cael ei brynu, ac roedd y cyngor yn cydweithio â chyrff eraill i gyflawni newid ehangach a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor. Hyd yma, mae buddsoddiad o fwy na £2 filiwn wedi ei wneud mewn dros 200 o brosiectau ynni-effeithlon, gan arbed dros £7 miliwn mewn costau cynnal a 41,000 o dunelli o CO₂ drwy gydol oes y prosiectau. Roedd yn gynllun cyffrous a fyddai'n datblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol er budd ein cenedlaeth ni, a chenedlaethau'r dyfodol.

Roedd y Cyngor hefyd yn gwneud buddsoddiadau sylweddol mewn meysydd eraill. Y bwriad yw buddsoddi bron i £255 miliwn mewn prosiectau cyfalaf, gan ganolbwyntio ar hybu'r economi, creu swyddi a gwella ansawdd bywyd ein trigolion. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymrwymiad pellach o £86 miliwn i adeiladu a thrawsnewid mwy fyth o ysgolion fel rhan o'n rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Byddai gwelliannau'n cael eu gwneud hefyd i'n ffyrdd a'n pontydd, a bydd newidiadau mawr eu hangen yn cael eu gwireddu yn ôl yr addewid am gyfleuster 'lleoedd newid' i drigolion anabl ac ymwelwyr â Llanelli.

Ym mis Awst y llynedd roedd y Cyngor wedi dathlu llwyddiant myfyrwyr Safon Uwch a TGAU ar draws y sir a gwelwyd gwelliannau amlwg gyda'r cyfraddau llwyddo unwaith eto yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd bron i 71 y cant o ddisgyblion wedi ennill gradd C neu uwch, gyda 21.3 y cant yn ennill y graddau uchaf A-A* - y ddau yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Roedd cynnydd cadarn mewn sgiliau Cymraeg a Saesneg ac roedd cyfraddau llwyddo'r gwyddorau hefyd yn parhau i wella ac yn rhagori ar y cyfartaleddau cenedlaethol.

Dywedodd yr Arweinydd er ei bod yn anodd cyfeirio at holl gyflawniadau'r cyngor, byddai'r adroddiad blynyddol yn rhoi dealltwriaeth lawn o'r llwyddiannau eleni a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Yna cyfeiriodd yr Arweinydd at y cyfnod digyffelyb hwn a'r modd yr ydym dros yr ychydig wythnosau diwethaf wedi cyd-dynnu mewn ffyrdd a oedd yn ei farn ef wedi

syfrdanu pawb. Yn ôl ym mis Mawrth, roedd yr awdurdod wedi cynnig rhai o'i safleoedd yn Sir Gaerfyrddin i'r GIG i'w defnyddio fel ysbytai maes - roedd y GIG mewn man lle'r oedd yn ofni nad oedd digon o welyau ar gael ar gyfer y pandemig. Gofynnwyd i'r gymuned leol am help i addasu pedwar lleoliad i ddarparu 600 o welyau brys er mwyn delio â'r pwysau disgwylidig ac o fewn 24 awr cawsom fwy na 350 o ymatebion. Dros 21 diwrnod, daeth gwirfoddolwyr, adeiladwyr a chontractwyr ynghyd i drawsnewid stadiwm rygbi, Canolfan Selwyn Samuel a Chanolfannau Hamdden Caerfyrddin a Llanelli yn ysbytai maes.

Rhoddodd yr Arweinydd deyrnged i'r holl grwpiau cymunedol, y banciau bwyd, cynghorau tref a chymuned, ac unigolion ledled y sir a oedd wedi gwirfoddoli yn ystod y cyfnod hwn. Mynegodd ddiolch o waelod calon i'r rhai a oedd wedi cynnig cymorth ymarferol, emosiynol neu wedi rhoi o'u hamser i gefnogi eraill, ac i'r gweithwyr hynny a oedd wedi parhau i fynd i'r gwaith a chadw ati.

Manteisiodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfle i dynnu sylw at Sir Gâredig, a sefydlwyd yn ddiweddar i gysylltu pobl mewn angen â'r rhai a allai roi cymorth. Bwriad Sir Gâredig oedd bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol ac annog pobl i rannu straeon o garedigrwydd - gan helpu i ddod â phobl at ei gilydd lle bo angen. Er bod hon yn neges newydd, nid oedd erioed yn gyfrinach bod Sir Gaerfyrddin yn sir gaerdig (Sir Gâredig).

Cyfeiriodd yr Arweinydd at ymrwymiad staff y Cyngor ac roedd eu hymateb gwych i'r pandemig covid-19 wedi bod yn rhyfeddol. Roeddent wedi gweithio'n ddiplino i sicrhau bod preswylwyr, cymunedau, sefydliadau a busnesau yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae'n rhaid i'r awdurdod dalu teyrnged i'r staff rheng flaen sydd wedi dangos dewrder mawr wrth barhau â'u gwaith, yn aml gan roi pobl eraill cyn nhw eu hunain a'u teuluoedd. Hefyd, y rheiny sydd wedi symud o'u gwaith bob dydd i weithio mewn rhannau eraill o'r gwasanaethau rheng flaen - y rheiny sydd fel arfer yn gweithio mewn swyddfeydd ac sydd bellach yn gweithio mewn cartrefi gofal, yn gyrru bysiau, ac yn dosbarthu bwyd. Roedd eu hymrwymiad a'u parodrwydd i gefnogi eraill yn gwbl ysbrydoledig a diolchodd yn benodol i'r rheiny a fu'n gweithio i sicrhau digon o Gyfarpar Diogelu Personol i'r rhai oedd ei angen, gan sicrhau diogelwch y staff bob amser.

Diolchodd i'r Gwasanaethau Addysg a Phlant am eu gwaith caled a'u gallu i addasu mor gyflym i anghenion cyfnewidiol ein disgyblion a'n plant. Er y bu'n rhaid i'r awdurdod gau ei ysgolion, roedd nifer ohonynt wedi ailagor, yn llythrennol ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, fel canolfannau ar gyfer darparu gofal plant i'r rhai oedd ei angen. Mynegodd gefnogaeth ddi-ball yr awdurdod wrth i'r Adran ddechrau ailagor safleoedd ysgolion dros yr wythnosau nesaf.

Diolchodd hefyd i'r rhai a fu'n ymwneud â chreu, cefnogi neu weithio mewn canolfannau bwyd a oedd wedi gweithio'n galed i gefnogi aelodau mwyaf agored i niwed y gymuned.

Cyfeiriodd yn benodol at Dîm Marchnata a'r Cyfryngau yn y Cyngor a Thîm yr Is-adran TG a oedd wedi cydweithio'n agos i gyflwyno negeseuon allweddol i'n preswylwyr er mwyn eu cadw'n ddiogel.

Diolchodd i bob swyddog a chynghorydd am eu gwaith yn ystod y pandemig, ac i'r Prif Weithredwr am ei chyfarwyddyd a'i hymrwymiad bob amser.

Mynegodd yr Arweinydd y gobaith y byddai pobl, wrth i ni ddechrau ar y cam adfer, yn dod i ddeall yn gyflym beth fyddai normal yn ei olygu i ni eto ac er y bydd rhai adegau anodd i ddod, roedd y Sir yn gadarn ac yn arloesol a byddai'r Cyngor yn parhau i wneud ei orau dros ei holl drigolion, yn yr un modd ag y gwnâi bob amser.

Wrth gloi, mynegodd yr Arweinydd y farn y gallai pawb gytuno ei bod wedi bod yn flwyddyn ryfeddol, blwyddyn a oedd wedi dod â phobl yn nes at ei gilydd a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth.

Rhodddwyd cyfle i Arweinwyr y Grŵp Llafur, y Grŵp Annibynnol Newydd a'r Grŵp Annibynnol roi sylwadau ar adroddiad yr Arweinydd. Mynegodd bob un ohonynt eu diolch a'u gwerthfawrogiad i bawb a oedd wedi rhoi help a chymorth yn ystod pandemig Covid 19.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd 2019/20.

7. CADARNHAU PENODI AELODAU I BWYLLGORAU'R CYNGORAR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2020-21.

Bu'r Cyngor yn ystyried aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill ac aelodaeth y pwyllgorau hynny. Cadarnhaodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol nad oes unrhyw newidiadau ychwanegol o ran aelodaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2020/21, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

8. YSTYRIED YR ENWEBIADAU A DDAETH I LAW AR GYFER PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU/PANELAU Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2020-21.

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol RhGG 17.6, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2020/21.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD bod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2020/21:-

<u>PWYLLGOR / PANEL</u>	<u>CADEIRYDD</u>	<u>IS-GADEIRYDD</u>
Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau	I'w benodi gan y Pwyllgor	Y Cynghorydd G.B. Thomas
Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant	Y Cynghorydd D. Price	Y Cynghorydd E.G. Thomas
Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd	Y Cynghorydd J. D James	Cynghorydd A. Vaughan Owen
Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau	Y Cynghorydd A.G. Morgan	Y Cynghorydd G. John
Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Y Cynghorydd G.Thomas	Y Cynghorydd I.W. Davies
Pwyllgor Apêl	Y Cynghorydd J.K. Howell	Y Cynghorydd S. C Allen
Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr	Y Cynghorydd E. Dole	Y Cynghorydd L.M. Stephens
Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth	Y Cynghorydd L.M. Stephens	Y Cynghorydd E. Dole
Pwyllgor y Gwasanaethau Democraataidd	Y Cynghorydd S. Curry	Y Cynghorydd W.T. Evans
Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed	Y Cynghorydd D.E. Williams	Heb fod yn ofynnol
Y Pwyllgor Trwyddedu	Y Cynghorydd E.G. Thomas	Y Cynghorydd D.E. Williams
Pwyllgor Penodi Aelodau	Y Cynghorydd A.D.T Speake	Y Cynghorydd W.R.A. Davies
Y Pwyllgor Cynllunio	Y Cynghorydd A. Lenny	Y Cynghorydd H.I. Jones
Y Panel Adolygu Tai	Y Cynghorydd G.B. Thomas	Y Cynghorydd I.W. Davies

(SYLWER: Cafwyd pleidlais ar wahân ar gyfer y seddi yr oedd cystadleuaeth amdanynt sef Is-gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Phlant)

9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYFANSODDIAD Y CYNGOR

Atgoffwyd y Cyngor o'r gofyniad iddo adolygu ei gyfansoddiad yn flynyddol ac, fel rhan o'r broses honno, roedd wedi sefydlu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad i gyflwyno unrhyw newidiadau a argymhellwyd.

Dywedwyd er nad oedd unrhyw newidiadau deddfwriaethol wedi'u cyflwyno yn ystod 2019/20 a oedd yn mynnu bod newidiadau'n cael eu gwneud i Gyfansoddiad y Cyngor, bod angen newid Rhan 6.1 i adlewyrchu'r symiau a ragnodwyd gan y

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a oedd i'w talu i Gynghorwyr ar gyfer 2020/21, fel y manylir yn yr adroddiad.

O ran gwaith Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad, dywedwyd er ei fod wedi cael y dasg o adolygu ac argymhell unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad, ni fu hyn bosibl ar ôl atal holl gyfarfodydd y Cyngor mewn ymateb i bandemig Covid 19. Felly, cynigiwyd y dylid gohirio'r Adolygiad Blynyddol i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

- 9.1 bod Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cynghorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2020/21 fel y manylir arno yn yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu;**
- 9.2 cymeradwyo unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r Cyfansoddiad o ran aelodaeth a wnaed yn gynharach yn y cyfarfod;**
- 9.3 Wrth ystyried pandemig Covid-19, bod yr adolygiad blynyddol llawn o'r Cyfansoddiad yn cael ei ohirio i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.**

CADEIRYDD

DYDDIAD